**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (PONT AR DDYFI, RHWNG MACHYNLLETH A DOLGELLAU YN SIROEDD POWYS A GWYNEDD) (GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud gwaith craen ger Pont ar Ddyfi ar gefnffordd yr A487 yn Siroedd Powys a Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o ochr orllewinol pwynt cyswllt y Bont newydd dros Afon Dyfi (tua 400 o fetrau i'r dwyrain o Bont ar Ddyfi bresennol yr A487) hyd at bwynt 200 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r B4404.

Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw yn dangos y cyfnodau pan fydd y ffordd ar gau'n llwyr, a dim ond am gyfnodau byr y bydd hyn yn para. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeirio.

Bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol yn ysbeidiol o 08:00 o'r gloch ar 12 Rhagfyr 2022 hyd 18:00 o'r gloch ar 21 Rhagfyr 2022, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (DYFI BRIDGE, BETWEEN MACHYNLLETH AND DOLGELLAU IN THE COUNTIES OF POWYS AND GWYNEDD) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake crane works near Dyfi Bridge on the A487 trunk road in the Counties of Powys and Gwynedd.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A487 trunk road that extends from the western side of the tie in point of the new Dyfi Bridge (approximately 400 metres east of the existing A487 Dyfi Bridge) to a point 200 metres southwest of its junction with the B4404.

Any full road closures will be indicated by advance traffic signs and will only be for short periods of time. No diversionary routes are necessary.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will operate intermittently from 08:00 hours on 12 December 2022 until 18:00 hours on 21 December 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government